

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

Ebost / email: clerc.llansantffraed@btinternet.com
Tel: 01545 570323

COFNODION HEB EU CADARNHAU

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd am 8.00pm ar nos Fawrth, y 6ed o Ragfyr 2016 yn yr Ystafell Ddarllen, Llanon.

Yn bresennol:

Cadeirydd: Y Cynghorydd L Lloyd
Y Cynghorwyr G Colledge, H Hayfield, M James, M Lawton, G Lewis, D Morgan, B Tomlins ac I Reed.

Y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards
Mr Denfer Morgan (Clerc)

UNCONFIRMED MINUTES

Minutes of a meeting of the Council held at 8.00pm on Tuesday, 6th December 2016 at the Reading Room, Llanon.

Present:

Chairman: Councillor L Lloyd
Councillors G Colledge, H Hayfield, M James, M Lawton, G Lewis, D Morgan, B Tomlins and I Reed.

County Councillor Dafydd Edwards
Mr Denfer Morgan (Clerk)

84 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorydd Jim Hughes am fethu a bod yn bresennol yn y Cyfarfod.

84 Apologies

Councillor Jim Hughes apologised for his inability to attend the meeting.

85 Chalet

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Judith Andrews a chyfaill o bwyllgor 'Save Llanon's Historic Landmark' i'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon. Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Edwards mai £2,500 oedd y pris gorau oedd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer darparu cysgodfa yn lle'r un presennol, gan gynnwys gwaith dur galfanedig, llithriad a phost cynnal canolog. Fe fyddai cost llawr concriid yn ychwanegol i hwn.

Fe atgoffodd y Cadeirydd y Cyngor fod swm o £1,178 ar gael yng nghronfa'r chalet yn arian wrth gefn y Cyngor. Dywedodd Judith Andrews eu bod wedi dod o hyd i ffynhonnell cyllido posib ar gyfer darparu defnyddiau deiladu.

PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa presennol ac i fwrw 'mlaen i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer darparu strwythur newydd yn 2017-18.

85 Chalet

The Chairman welcomed Judith Andrews and a colleague from 'Save Llanon's Historic Landmark' committee to the meeting in respect of this item. Councillor Dafydd Edwards indicated that a 'guesstimate' for the cost of providing a replacement shelter would be £2,500, which would include galvanized steel works, a skid and a central spine. The cost of a concrete floor would be in addition to this.

The Chairman reminded the Council that a sum of £1,178 was available in the chalet fund in the Council's reserves. Judith Andrews indicated that they had obtained a probable source for providing construction materials.

It was RESOLVED to note the current position and to proceed to firm up arrangements for providing a replacement structure in 2017-18.

- | | |
|--|---|
| <p>86 Cofnodion o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 1af o Dachwedd 2016
Cadarnhawyd cofnodion o'r Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y 1af o Dachwedd 2016 fel rhai cywir.</p> | <p>86 Minutes of the Meeting held on 1st November 2016
The Minutes of the Meeting of the Council held on 1st November 2016 were confirmed as being a correct record.</p> |
| <p>87 Materion yn codi o'r Cofnodion</p> | <p>87 Matters arising from the Minutes</p> |
| <p>87.1 A487 yn Llanon
Dywedodd y Clerc bod y rhybudd arfaethedig wedi ei drafod yn y cyfarfod ymgynghorol gyda'r Cyngor Sir a nad oedd cynrychiolydd y Gwasanaeth Priffyrdd wedi cynnig unrhyw sylw ar y bwriad.</p> <p>PENDERFYNWYD trafod dosbarthu'r rhybudd yn y cyfarfod nesaf.</p> | <p>87.1 A487 at Llanon
The Clerk advised that the suggested Notice had been discussed at the consultative meeting held with the County Council and that the representative of the Highways Service had not offered any comments on the proposal.</p> <p>It was RESOLVED to consider distributing the notice at the next meeting.</p> |
| <p>87.2 Arwyddion
Nodwyd bod yr arwydd ar gyfer yr eisteddle yn Llanon wedi'i archebu gan y Clerc. Cytunwyd gifyn i'r Cyngforydd Tomlins cael gafael ar ddau bostyn er mwyn gosod yr arwydd arnynt.</p> | <p>87.2 Signs
It was noted that all the sign for the seating area at Llanon had been ordered by the Clerk. It was agreed that that Councillor Tomlins be asked to obtain two posts for erecting the sign.</p> |
| <p>87.3 Banc Poteli
Dywedodd y Cyngforydd Lloyd nad oedd Pwyllgor y Neuadd wedi penderfynnu bwrw 'mlaen i ddarparu banc poteli yn y maes parcio.</p> | <p>87.3 Bottle Bank
Councillor Lloyd stated that the Village Hall Committee had decided not to proceed to locate a bottle bank at the car park.</p> |
| <p>87.4 Hysbysfwrdd / Meinciau
Nodwyd bod angen cysylltu â thîm Rhydian Wilson.</p> | <p>87.4 Notice Board / Benches
It was noted that there was a need to contact Rhydian Wilson's team.</p> |
| <p>87.5 Dywedodd y Clerc fod y Cyngor Sir wedi cyflwyno cais 'expression of interest' a disgwylwyd y penderfyniad. Roedd hefyd yn mynd i ystyried a ddylid bwrw 'mlaen gyda'r gwaith o ail-darmacio'r cyrtiau yn y cyfamser.</p> | <p>87.5 The Clerk stated that the County Council had submitted an application in the form of an expression of interest and that a decision was awaited. He would also ascertain whether the work of re-tarmacng the courts could proceed in the meantime.</p> |
| <p>87.6 To y Chalet
Cytunwyd y byddai'r Cyngforydd Bryan Tomlins yn cael pris gan Emyr Harries am osod ffelt newydd ar y to.</p> | <p>87.6 Chalet Roof
It was agreed that Councillor Bryan Tomlins obtain a price from Emyr Harries for replacing the felt on the roof.</p> |
| <p>87.7 Tir yn ffinio gyda'r Maes Parcio</p> | <p>87.7 Land adjoining the Car Park</p> |

Adroddodd y Clerc taw £1,000 oedd y pris a roddwyd gan y Prisiwr Dosbarth ar gyfer cynnig prisiant o'r tir sy'n destun y cais, sef yr un swm a roddwyd yn flaenorol ganddo a dywedodd fod y ffeil yn dangos nad oedd y Cyngor wedi bwrw 'mlaen gyda'r mater bryd hynny. Dywedodd sawl Aelod fod y mater wedi'i drafod yn flaenorol a taw'r penderfyniad oedd i gadw gafael ar y darn o dir. CYnigiwyd y dylid cadw gafael ar y darn o dir ac ystyried ei ddefnyddio ar gyfer darparu llefydd parcio ychwanegol.

PENDERFYNWYD cadw at benderfyniad blaenorol y Cyngor i beidio a gwaredu'r darn o dir ac i ymchwilio i'r posibilrwydd o'i ddatblygu ar gyfer darparu llefydd parcio ychwanegol.

The Clerk reported the fee quoted by the District Valuer for providing a valuation of the parcel of land in question was £1,000 which was the same as that provided previously by him and stated that the file indicated that the Council had not proceeded any further at that time. Several Members indicated that the matter had been discussed previously and that it had been decided to retain the land. It was proposed that the land be retained and utilised for providing additional parking.

It was RESOLVED to adhere to the Council's previous decision not to dispose of the parcel of land and to investigate the possibility of its development for providing additional parking spaces.

87.8 Digwyddiad y Nadolig

Cytunwyd cwrdd bore trannoeth er mwyn codi'r coeden Nadolig ac i fwrw 'mlaen gyda'r digwyddiad ar 9fed Rhagfyr.

87.8 Christmas Event

It was agreed to meet to erect the Christmas Tree the following morning and to proceed with the event on 9th December.

87.9 Coed ar Ymyl Ochr Graig ddu gyda'r Heol

Cytunwyd cysylltu gyda'r perchnogion parthed y coed oedd angen eu tocio ar hyd y ffens oedd yn ffinio gyda'r A487.

87.9 Trees on Graig Ddu Roadside Verge

It was agreed to contact the owners with regard to the trees which needed pruning along the perimeter fence running alongside the A487.

88 Eiddo – Adroddiad yr Arolygiad

Rhoddodd y Cynghorydd Gerallt Lewis ei adroddiad a dywedodd nad oedd yna unrhyw broblemau yn hysbys.

88 Property Matters

Councillor Gerallt Lewis gave his report and stated that there didn't appear to be any problems.

89 Cyllid

PENDERFYNWYD talu'r canlynol:

Cyflog y Clerc (Gorff-Awst-Medi):
 CThEM (TWE) £146.93
 Cyflog Net £587.70
 Dafydd Lloyd (taenu scalpings) £60
 Cyng I Reed (Goleuadau Nadolig) £14.99

89 Finance

It was RESOLVED to pay the following:

Clerk's Salary (July-Aug-Sept):
 HMRC (PAYE) £146.93
 Net Pay £587.70
 Dafydd Lloyd (spreading scalpings) £60
 Cyng I Reed (Christmas Lights) £14.99

90 Cyfrifon 2016-17 – Monitro Gwariant Adroddiad Rhif 2

Rhoddwyd ystyriaeth i'r gwybodaeth a ddarparwyd gan y Clerc a NODWYD y sefyllfa ganlynol:

90 2016-17 Accounts – Monitoring of Expenditure Report No. 2

Consideration was given to the information provided by the Clerk and the following position was NOTED:

Budget 2016-17 £13,770

Cyllideb 2016-17 £13,770
 Gwariant hyd at 30 Medi 2016 £4,086
 Gwariant Disgwyliedig
 30 Ebrill 2017 £13,316

Spend to 30 September 2016 £4,086
 Anticipated expenditure 30 April
 2017 £13,316

- | | |
|--|--|
| <p>91 Cynllun Mabwysiadu Llwybrau Cynghor Sir Ceredigion
 Nodwyd neges y Clerc nad oedd dim byd pellach wedi'i glywed gan swyddogion y Cynghor Sir.</p> | <p>91 Ceredigion County Council Adopt a Footpath Scheme
 The Clerk's message that nothing further had been heard from the County Council Officers was noted.</p> |
| <p>92 Cynghor Sir Ceredigion a Nyth
 PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Hayfield i gynrychiolu'r Cynghor mewn digwyddiad yn dathlu'r gwaith sy'n parhau rhwng Cynghor Sir Ceredigion a Nyth, cynllun arloesol Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau tlodi tanwydd yng Nghymru ar y 10fed Ionawr 2017 yn Ystafell Ystwyth, Penmorfa, Aberaeron.</p> | <p>92 Ceredigion County Council and Nest
 It was RESOLVED to appoint Councillor Hayfield to represent the Council at an event celebrating the on-going work between Ceredigion County Council and Nest, the flagship Welsh Government fuel poverty reduction scheme for Wales on 10th January 2017 at Ystwyth Room, Penmorfa, Aberaeron.</p> |
| <p>93 Unrhyw Fater Arall</p> | <p>93 Any Other Business</p> |
| <p>93.1 Adroddodd y Cynghorydd Tomlins fod yna olau stryd arall diffygiol yng Nghylch Peris.</p> | <p>93.1 Councillor Tomlins reported that a further street light was not working at Cylch Peris.</p> |
| <p>93.2 Cynigiodd y Cynghorydd Tomlins y dylid trefnu pryd o fwyd i ddathlu'r Nadolig yn y White Swan a chytunwyd trafod y mater yn y cyfarfod nesaf.</p> | <p>93.2 Councillor Tomlins suggested that a Christmas meal be organised at the White Swan and it was agreed to consider this at the next meeting.</p> |
| <p>93.3 Dywedodd y Cynghorydd Reed fod cleddr wedi dod i'r golwg yn Stryd yr Eglwys ar ôl trasho llwyni a'i fod yn creu rhwystr.</p> | <p>93.3 Councillor Reed reported a stanchion which had become visible on Stryd yr Eglwys after trashing shrubbery and was causing an obstruction.</p> |
| <p>93.4 Cyfeiriodd y Cynghorydd Reed at waith oedd yn cael ei wneud ar ran o lwybr troed 33/1, ymddangosai nad oedd awdurdod i'w wneud.</p> | <p>93.4 Councillor Reed reported work being done on part of footpath at 33/1, which appeared to be unauthorised.</p> |
| <p>93.5 Dywedodd sawl Aelod eu bod yn cofio'r Cynghor yn codi postyn lamp yn James Close rhywbryd cyn 2005 gan gynnig taw cyfrifoldeb y Cynghor oedd newid bylbiau. Gofynnwyd i'r Clerc ymchwilio i'r mater.</p> | <p>93.5 Several Members stated that they recalled the Council erecting a lamp post at James Close prior to 2005 and suggested that it was responsible for replacement bulbs. The Clerk was requested to investigate the matter.</p> |

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 y.h.

The meeting concluded at 9.00 p.m.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 3ydd o Ionawr 2017

Date of Next Meeting – 3rd January 2017